# Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Dysgu – Cronfeydd Strwythurol: gweithredu rhaglenni 2007-2013

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn rhoi tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor i weithredu rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2007-2013 yng Nghymru. Mae'n adlewyrchu ar brofiad Llywodraeth Cynulliad Cymru – yn benodol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru – yn ei rôl fel yr Awdurdod Rheoli ac Ardystio i'r Rhaglenni.

2. Am y cyfnod 2007-2013 mae Cymru yn gymwys i dderbyn arian Cydgyfeirio (i Orllewin Cymru a'r Cymoedd) ac arian Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol (i Ddwyrain Cymru). Gellir cael arian ewropeaidd hefyd o dan y Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol. Ceir rhagor o fanylion am y strwythur a'r ariannu i'r rhaglenni prif ffrwd yng Nghymru yn **Atodiad A.**

3. Roedd Rhaglenni Cymru ymysg y cyntaf yn Ewrop i gael eu cytuno â'r Comisiwn Ewropeaidd. Maen nhw'n ymateb i gyd-destun economaidd – gymdeithasol ac amodau'r farchnad lafur yng Nghymru ac yn cyd-fynd yn agos â pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru a strategaethau Lisbon a Gothenburg yr UE ar gyfer swyddi a thwf cynaliadwy. Datblygwyd y rhaglenni drwy ymgynghori'n glòs ag ystod eang o randdeiliaid ledled Cymru.

## Cynnydd y gweithredu hyd yma gan gynnwys prosiectau sydd i ddod

4. Ychydig dros ddwy flynedd a hanner ar ôl gweithredu'r rhaglenni, mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi cytuno ar gyfanswm buddsoddiad o dros £2.3 biliwn, gyda chyfraniad arian yr UE o dros £1.1 biliwn (56% o arian yr UE sydd ar gael).

5. Mae'r ffigurau ymrwymiad ar lefel rhaglenni fel a ganlyn.

| Rhaglen | Cyfanswm cost prosiectau (£m) | Cyfran (%) | Grant UE (£m) | Cyfran (%) |
|---|---|---|---|---|
| **Cydgyfeirio ERDF** | 1,121.9 | 57% | 522.7 | 46% |
| **Cystadleurwydd ERDF** | 121.2 | 83% | 34.9 | 53% |
| **Cydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop** | 956.0 | 81% | 530.9 | 70% |
| **Cystadleurwydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop** | 126.1 | 88% | 47.2 | 82% |
| **Cyfanswm** | **2,325.2** | **68%** | **1,135.8** | **56%** |

6. Mae'r data yn y tabl hwn ac mewn mannau eraill yn y papur yn gywir ar 28 Chwefror 2010 oni nodir yn wahanol.

7. Mae lefel gyffredinol arian yr EU sydd wedi'i ymrwymo hyd yma ar draws Rhaglenni Cymru yn cymharu'n dda â'r lefelau ymrwymiad i'r DU i gyd ac â'r pwynt cyfatebol wrth weithredu rhaglenni 2000-2006.

8. Mae dros £303 miliwn (27%) o'r grant a ymrwymwyd hyd yma'n cefnogi busnesau ac mae dros £572 miliwn (50% o'r grant a ymrwymwyd) yn rhoi cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i unigolion. Yn ogystal, mae £152 miliwn ERDF yn cael eu buddsoddi mewn adfywio cymunedau ac mae dros £95 miliwn yn cefnogi gwelliannau yn yr amgylchedd a chludiant cynaliadwy. Ceir rhagor o fanylion am yr ymrwymiad ar lefel rhaglenni a blaenoriaethau yn **Atodiad A**.

9. Mae lefel dda o ddiddordeb o hyd ar draws pob rhan o'r rhaglenni gan ddarpar noddwyr prosiectau. Mae'r prosiectau sydd i ddod yn arbennig o gryf o dan flaenoriaethau Seilwaith ac Adfywio Ffisegol ERDF a blaenoriaethau Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n canolbwyntio ar roi cymorth i bobl ifanc a chynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd. Mae'r ymgysylltu wedi bod ychydig yn arafach o dan thema TGCh ERDF a blaenoriaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n rhoi cymorth i foderneiddio'r gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae'r gweithgarwch bellach yn cynyddu yn y blaenoriaethau hyn ac mae disgwyl i ragor o brosiectau gael eu cymeradwyo yn y dyfodol agos.

10. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi talu allan dros £183 miliwn o arian yr UE hyd yma. Mae pob targed y Comisiwn ar gyfer gwariant rhaglenni (N+2) wedi cael eu cyrraedd er gwaetha'r amgylchedd economaidd heriol ar hyn o bryd. Mae'r rhaglenni ar y trywydd cywir o ran cyflawni eu hamcanion a'u targedau.

11. Mae Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni a'r Gweinidogion yn cael gwybod yn gyson am y cynnydd ar draws amryw flaenoriaethau'r rhaglenni.

**Helpu unigolion**

12. Ar hyn o bryd, mae Rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn cefnogi dros 97,000 o bobl, y mae 45 y cant ohonynt yn fenywaidd, 14 y cant yn anabl a 5 y cant o grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig. O'r rhai sy'n derbyn cymorth, mae dros 56,000 o bobl ddi-waith ac economaidd anweithgar yn cael eu helpu i ddod o hyd i gyflogaeth ac mae bron i 35,000 o bobl ddi-waith yn cael eu cefnogi i gynyddu eu sgiliau. Er enghraifft, mae ProAct eisoes wedi helpu 187 busnes a 8,374 gweithiwr gyda rhaglenni cynnal ac mae 13,200 o bobl sydd wedi colli eu swyddi'n derbyn cymorth drwy ReAct.

13. Er mai megis dechrau'r gweithredu rydym ni i raddau, mae Rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2007-2013 yng Nghymru eisoes wedi helpu

dros 8,500 o bobl economaidd anweithgar a di-waith i gael cyflogaeth ac mae dros 31,600 o bobl wedi ennill cymwysterau. At hynny, mae ychydig dros 28,700 o bobl wedi cael eu helpu i ddechrau dysgu pellach, a dros 16,500 o’r rhain yn bobl ifanc.

**Helpu busnesau**

14. O’r grant o £303 miliwn a ymrwymwyd i gefnogi busnesau, mae £165 miliwn yn cael eu buddsoddi mewn Cyllid a Menter Busnes, £115 miliwn mewn Arloesedd ac Ymchwil a Datblygu a £23 miliwn i gefnogi TGCh. Cymru oedd y rhanbarth cyntaf yn y DU ac ymysg y cyntaf yn Ewrop i sefydlu cronfa Cyd-adnoddau Ewropeaidd ar gyfer Busnesau Micro i Ganolig (JEREMIE), mewn partneriaeth â Banc Buddsoddi Ewrop, i gynnig cymorth ariannol i BBaChau. Mae’r gronfa £150 miliwn (gan gynnwys Arian Cyfatebol) eisoes wedi buddsoddi £19m i 128 BBaCh. Yn ogystal, mae’r Cronfeydd Strwythurol yn cefnogi cynlluniau grantiau busnes wedi’u harwain gan awdurdodau lleol a fydd, ynghyd â’r cynllun Cyd-adnoddau Ewropeaidd ar gyfer Busnesau Micro i Ganolig (JEREMIE), yn helpu hyd at 5000 busnes.

15. Bydd y prosiectau a gymeradwywyd hyd yma o dan Raglenni ERDF yn cynorthwyo busnesau yng Nghymru gyda dros 30,000 ymyriad (megis rhai technegol, ymarferol a chymorth ariannol), y bydd tua 9,000 ohonynt i fentrau newydd. Amcangyfrifir y bydd 48,000 o swyddi gros yn cael eu creu o ganlyniad. Mae prosiectau a dderbyniodd gefnogaeth hyd yma wedi creu 867 menter; wedi helpu 1,388 menter; wedi creu 2,375 swydd gros gyfatebol ag amser llawn, ac wedi ysgogi tua £57 miliwn o fuddsoddiadau pellach.

**Yr Amgylchedd / Cludiant / Cymunedau**

16. Mae 48 prosiect gyda gwerth grant o £247 miliwn wedi cael eu cefnogi hyd yma a fydd yn helpu i fynd i’r afael â heriau amgylcheddol, cyflenwi gwell cludiant ac adfywio cymunedau.

17. Bydd y prosiectau a gymeradwywyd yn creu neu’n ailwampio bron i 40,000 metr sgwâr o eiddo busnes, a bydd 29 prosiect yn helpu gydag adfywio ffisegol rhai o’n cymunedau mwyaf difreintiedig.

18. Bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw sefydlu Cronfa Ddatblygu Ddinesig yng Nghymru y gellir ei hailgylchu o dan fenter Cyd-gymorth Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddi Cynaliadwy mewn Ardaloedd Dinesig (JESSICA) y Comisiwn a Banc Buddsoddi Ewrop. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn disgwyl y bydd yn gallu cymeradwyo’r cais am ERDF ar gyfer Cyd-gymorth Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddi Cynaliadwy mewn Ardaloedd Dinesig (JESSICA) erbyn diwedd mis Mawrth 2010.

19. Ceir rhagor o fanylion am ganlyniadau'r Rhaglen hyd yma ar wefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru www.wefo.wales.gov.uk

**Lefel yr ymrwymiad ar draws sectorau**

20. Bu lefel uchel o ymgysylltu a chyfranogi ar draws amryw o sectorau wrth lunio'r Rhaglenni a'r Fframweithiau Strategol ac yn y trefniadau gweithredu.

21. O gofio natur strategol cyflenwi'r Rhaglenni, mae prosiectau sy'n cael eu harwain gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cynrychioli cyfran arwyddocaol o'r prosiectau a gymeradwywyd hyd yma (72 o 156). Mae'r prosiectau hyn wedi cael eu datblygu mewn partneriaethau ac yn cael eu cyflenwi drwy drefniadau caffael gan fwyaf. Mae'r 84 prosiect sy'n weddill yn cael eu harwain gan gyrff eraill gan gynnwys 26 prosiect Awdurdod Lleol, 21 trydydd sector, 9 sector preifat a 15 o'r sector Addysg Uwch/Addysg Bellach.

22. Mae cyfleoedd i'r sectorau preifat a dielw i ddod yn brif noddwyr i brosiect, ond mae hi'n dal i fod yn wir mai'r sector preifat a chyrff llai'r trydydd sector sy'n elwa'n bennaf ar gefnogaeth gan gynlluniau sy'n cael eu harwain gan y trydydd sector, neu sy'n cael mynediad uniongyrchol atynt. Mae'r rhain wedi cael eu datblygu mewn partneriaeth glòs â'u sector cleientiaid er mwyn sicrhau eu bod yn ateb anghenion busnesau. Mae'r pwyslais cryfach ar gaffael wedi creu cyfleoedd ehangach i sectorau heblaw am y sector cyhoeddus yn rhaglenni 2007-2013 nag oedd mewn cyfnodau rhaglennu blaenorol. Mae'r ffigurau ar gyfer y prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo yn dangos hyd yn oed yn erbyn y cefndir economaidd heriol, fod cyfanswm o bron i £400 miliwn o arian cyfatebol o'r sector preifat wedi'u hymrwymo i brosiectau. Mae hyn yn adlewyrchu buddsoddiad sylweddol o'r sector preifat ac yn dangos gwerth y dull strategol o fynd ati i reoli a chyflenwi rhaglenni.

**Dosbarthiad gofodol**

23. Er ein bod ni'n cydnabod bod diddordeb mawr mewn dadansoddi gwerth yr ymrwymiadau a'r cynnyrch yn ofodol, mae natur strategol cyflenwi'r rhaglenni, gyda phrosiectau mawr yn cwmpasu ardaloedd eang, yn ei gwneud hi'n anodd cyflwyno hyn yn ystyrlon. Mae mwyafrif y prosiectau'n adrodd y bydd eu gweithgarwch yn cwmpasu o leiaf bedair o chwe ardal y Cynllun Gofodol yng Nghymru. Mae gan Dimau Ewropeaidd Gofodol[1] rôl o ran hybu pobl i fanteisio ar gyfleoedd ledled Cymru ac mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn trafod dulliau priodol o adrodd gofodol â nhw.

**Proses Ymgeisio, Strategaeth Weithredu a defnyddio caffael**

---

[1] Mae pedwar Tîm Ewropeaidd Gofodol a Thîm Ewropeaidd Gofodol trydydd sector wedi cael eu sefydlu i helpu i gyflenwi'r Cronfeydd Strwythurol orau gallwn ni yng Nghymru.

24. Roedd gwerthusiadau o raglenni 2000-2006 ac adborth gan bartneriaid yn nodi y gellid gwella eu heffaith gyffredinol drwy sicrhau: rhagor o ddulliau ‘cydgysylltiedig’ i weithgarwch prosiect; cryfhau’r cyd-fynd â phrif amcanion rhaglenni; cydweithredu isranbarthol cryfach, a symleiddio strwythurau rhaglenni a threfniadau gweithredu.

25. Felly cyflwynwyd nifer o bethau newydd i raglenni 2007-2013. Yn gyntaf, cyflwynwyd Fframweithiau Strategol fel strategaethau gweithredol i wneud y defnydd gorau o Fframweithiau Strategol drwy well partneriaeth, cydweithredu a chydlynu rhwng prosiectau[2].. Caiff cydweithredu a phartneriaeth isranbarthol eu hannog ymhellach wrth i Grwpiau Ardaloedd Cynllun Gofodol Cymru gymryd rhan wrth gydlynu datblygiad y Fframweithiau Gofodol, a gwaith y Timau Ewropeaidd Gofodol.

26. Yn ail, mae’r trefniadau gweithredu newydd yn cynnwys dull iterus ac ymgynghorol o ddatblygu prosiectau, gan ddechrau drwy fynegi diddordeb i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru cyn symud ymlaen i gam cynllunio busnes manylach. Mae’r broses ymgeisio newydd ar y we – mae “Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru Ar-lein” yn galluogi noddwyr i ryngweithio, rhannu gwybodaeth a gwneud busnes gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru drwy’r Rhyngrwyd a’i fwriad yw symleiddio ceisiadau am grantiau a phrosesu taliadau’n gynt. Mae’n annog gweithio cydweithredol fel bod llai o brosiectau mwy strategol, gyda llai o berygl y bydd dyblygu.

27. Mae’r cynigion yn cael eu hasesu yn erbyn meini prawf dethol a blaenoriaethu y cytunwyd arnynt gan Bwyllgor Monitro’r Rhaglen. Mae’r meini prawf hyn yn cynnwys sut mae’r prosiect yn gweddu ac yn cyfrannu i strategaeth y rhaglen, manteision economaidd ac angen y farchnad, i ba raddau y ceir ymgysylltu â phartneriaid, cyfraniad i’r themâu trawsbynciol, gwerth am arian a chyfraniad i’r dyfodol o ran newid strwythurol ac effaith parhaol. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru’n gofyn am gymorth a chyngor arbenigol wrth asesu yn erbyn y meini prawf hyn fel y bo angen.

28. Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau’r UE, mae gofyniad i noddwyr prosiectau hysbysebu cyfleoedd cyflenwi ar sail deg a thryloyw. Mae hyn yn ehangu’r cyfleoedd i fusnesau bach a’r trydydd sector allu cystadlu am gytundebau ac i gael mynediad at Gronfeydd Strwythurol drwy’r llwybr caffael. Mae’r dull hefyd yn sicrhau’r gwerth gorau i ddefnyddio cronfeydd cyhoeddus ac yn dileu’r perygl o anghysondebau posibl a allai arwain at herio ac adennill. Mae’r data diweddaraf yn dangos bod gan o leiaf 70% o’r prosiectau a gymeradwywyd elfen o weithgarwch caffael wrth gyflenwi eu prosiect; mae gwerth bron i £180 miliwn o gytundebau wedi’u dyfarnu i gyrff sydd wedi tendro’n llwyddiannus am weithgareddau cyflenwi prosiectau.

---

[2] I’r Rhaglen Cydgyfeirio mae 14 fframwaith wedi’u gyrru gan themâu a 5 fframwaith wedi’u gyrru’n ofodol yn cwmpasu’r chwe maes a nodir yng Nghynllun Gofodol Cymru. Mae saith o’r Fframweithiau Strategol thematig a thri o’r rhai gofodol yn cwmpasu Rhaglen Ranbarthol Cystadleurwydd a Chyflogaeth Dwyrain Cymru.

29. Mae synergedd a chydweithredu ar draws y rhaglenni wedi cael eu gwella drwy sefydlu Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan i oruchwylio gweithredu pedair rhaglen Cymru, gan symleiddio'r trefniadau blaenorol o dan Raglenni 2000-2006 lle roedd gan bob rhaglen ei Bwyllgor Monitro Rhaglen ei hun.

**Monitro a Gwerthuso**

30. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn fod monitro a gwerthuso o ansawdd uchel yn angenrheidiol i reoli rhaglenni'n effeithiol. Caiff Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni a Gweinidogion adroddiadau cyson.

31. Mae dull Llywodraeth y cynulliad o asesu llwyddiant y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol wedi'i seilio ar:
    - olrhain cynnydd ystod o ddangosyddion economaidd, yn arbennig cyflogaeth, enillion a GYC, mewn termau absoliwt ac o'u cymharu â rhannau eraill o'r DU a'r UE;
    - monitro yn erbyn y dangosyddion a osodwyd i flaenoriaethau unigol, wedi'u troi'n ffigwr gros i lefel rhaglenni;
    - gwerthuso ar lefel rhaglenni; a
    - gwerthuso ar lefel prosiectau.

32. Mae newidiadau i reoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd yn golygu nad yw gwerthusiadau ar bwynt sefydlog megis y Gwerthusiadau Canol Tymor a'r Diweddariadau Gwerthuso Canol Tymor bellach yn orfodol. Gan adlewyrchu'r arfer gorau, mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi penderfynu gwneud gwerthusiadau ar y pwynt mwyaf effeithiol wrth gyflenwi'r Rhaglenni. Mae gwerthusiad o'r effeithiau sy'n deillio o'r ffordd y mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn rheoli'r arian (e.e. Fframweithiau Strategol, Cyfathrebu) eisoes ar y gweill a bydd astudiaethau thema ac effaith eraill yn cyd-fynd â nhw, wedi'u nodi yn Strategaeth Monitro a Gwerthuso 2007-2013 a'r cynlluniau dwy flynedd cysylltiedig, gan gynnwys:
    - astudiaeth ddichonoldeb sy'n archwilio gwahanol ddulliau o werthuso effaith y rhaglenni (i ddod yn 2012);
    - gwerthusiadau parhaus ar lefel thema i asesu pa mor debygol yw hi y bydd y rhaglenni'n cyflawni eu hamcanion;
    - arolygon blynyddol o gyfranogwyr Cronfa Gymdeithasol Ewrop i asesu canlyniadau caled (cael swyddi / cymwysterau) a chanlyniadau sy'n anos eu mesur (gwella lefelau sgiliau / hyder); a
    - 'Arolygon Barn Cwsmeriaid' i gael barn cwsmeriaid Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

33. Yn ogystal â'r gwaith hwn ar lefel rhaglenni, mae'n ofynnol hefyd i bob noddwr prosiect werthuso eu prosiectau i sicrhau bod tystiolaeth o arfer da a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu nodi'n effeithiol[3]. Bydd cwestiynau

---

[3] Rhaid i brosiectau sy'n derbyn dros £2 filiwn mewn grantiau neu'r rhai sy'n cael eu hystyried yn arbennig o arloesol, gael eu gwerthuso gan gontractwyr annibynnol.

gwerthuso sydd yn y Fframweithiau Strategol yn galluogi Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i ymgymryd â synthesis o ganlyniadau gwerthuso ar lefel prosiectau.

**Ymateb i'r dirwasgiad ac Argaeledd Arian Cyfatebol**

34. Mae'r Cronfeydd Strwythurol yn chwarae rhan bwysig yn ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r dirywiad economaidd byd-eang. Mae'r ffaith fod polisïau cenedlaethol a blaenoriaethau rhaglenni'r UE yn cydredeg wedi golygu bod y cronfeydd wedi gallu ymateb i'r blaenoriaethau sy'n codi o'r Uwchgynadleddau Economaidd. Mae hyblygrwydd y rhaglenni'n golygu eu bod nhw wedi gallu ymateb ac addasu i ateb gofynion newydd. Fodd bynnag, mae'r strategaeth wreiddiol i'r rhaglenni'n dal yn berthnasol, ac mae'r rhaglenni'n dal i ganolbwyntio ar roi sylw i gryfderau a heriau strwythurol tymor hir ac ar hyrwyddo twf a swyddi cynaliadwy.

35. Mae canlyniadau eraill yr amgylchedd economaidd yn cynnwys cwymp yng ngwerth Sterling yn erbyn yr Ewro a'r pwysau ar arian cyfatebol y sector cyhoeddus a phreifat. Er mwyn ymateb i hyn, llwyddodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i negodi cynnydd yng ngraddfeydd ymyrryd rhaglenni â'r Comisiwn Ewropeaidd i'r ddwy Raglen Gydgyfeirio ERDF ac un rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn 2009 – ar gyfartaledd cynnydd o 10 pwynt canran i'r Cydgyfeirio a 5 pwynt canran i Gystadleurwydd ERDF. Effaith hyn oedd lleihau gofynion yr arian cyfatebol £267 miliwn ar draws y pedair rhaglen brif ffrwd.

36. Yn ogystal cytunodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar nifer o newidiadau eraill i'r rhaglenni i roi cymorth i'r adferiad economaidd; cafodd y cymorth i bobl ddi-waith a'r rhai sydd o dan yr anfantais fwyaf yn y farchnad lafur ei gynyddu drwy raglen Gydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Cafodd hyblygrwydd ychwanegol i'r rhaglenni sy'n cynorthwyo gweithredu ac agor ffynonellau arian cyfatebol newydd eu cymeradwyo gan yr UE, gan gynnwys cymorth i seilwaith TGCh a buddsoddiadau mewn mesurau effeithlonrwydd ynni sy'n gysylltiedig â thai.

37. Mae cynllun Cronfa Arian Cyfatebol a Dargedir Llywodraeth y Cynulliad yn dal i ddarparu cronfa arian cyfatebol ganolog fel cam eithaf i raglenni'r Cronfeydd Strwythurol. Cafodd ei lansio ganol 2008 a hyd yma mae wedi dyfarnu £43.9m i gefnogi 19 prosiect.

**Cynaliadwyedd y Rhaglenni ar ôl 2013**

38. Mae Rhaglenni 2007-2013 eisoes yn rhoi pwyslais ar symud o ddiwylliant grantiau i ddiwylliant buddsoddi a rhagwelir y bydd y Rhaglen Adfywio Economaidd yn cryfhau hyn, gan gynnwys canolbwynt ar gynaliadwyedd buddsoddiadau. Er mwyn cefnogi hyn mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn sicrhau bod prosiectau:

- Yn cynnwys strategaethau ymadael hyfyw ar lefel prosiect o'r dechrau'n deg fel bod y buddsoddiadau a wneir yn cael eu gweld yn

eglur fel rhai sydd wedi’u cyfyngu gan amser ac na fydd neb yn tybio y bydd yr arian refeniw yn parhau;

- Yn gynaliadwy ac yn parhau y tu hwnt i’r rhaglenni cyfredol drwy fuddsoddiad penodol mewn Offer Peirianyddol Ariannol (cronfeydd benthyg) fel Cyd-adnoddau Ewropeaidd ar gyfer Busnesau Micro i Ganolig (JEREMIE) a Chyd-gymorth Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddi Cynaliadwy mewn Ardaloedd Dinesig (JESSICA); ac
- Yn canolbwyntio’n gryf ar dwf a swyddi cynaliadwy. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn blaenoriaethu prosiectau sydd â manteision economaidd eglur ac sy’n edrych tuag at dwf a galluogi sectorau a sgiliau’r dyfodol.

**Atodiad A**

**Rhaglen Gydgyfeirio ERDF**

*Miliynau £*[4]

| | **Dyraniad** | | **Ymrwymiad** | |
|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **Cyfanswm cost y prosiect** | **Grant yr UE** | **Cyfanswm cost y prosiect** | **Grant yr UE** |
| 1 – Adeiladu'r economi wybodaeth | 507.8 | 285.3 | 262.4 | 126.0 |
| 2 – Gwella Cystadleurwydd Busnesau | 348.0 | 175.3 | 349.8 | 153.7 |
| 3 – Datblygu seilwaith strategol i economi fodern | 526.0 | 300.7 | 122.6 | 59.0 |
| 4 – Creu amgylchedd busnes deniadol | 351.2 | 209.0 | 237.6 | 108.5 |
| 5 – Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy | 203.6 | 143.6 | 135.5 | 68.6 |
| 6 - Cymorth technegol | 41.1 | 22.7 | 14.0 | 7.0 |
| **Cyfanswm** | **1977.7** | **1136.6** | **1,121.9** | **522.7** |

**Rhaglen Gystadleurwydd ERDF**

*Miliynau £*

| | **Dyraniad** | | **Ymrwymiad** | |
|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **Cyfanswm cost y prosiect** | **Grant yr UE** | **Cyfanswm cost y prosiect** | **Grant yr UE** |
| 1 - Gwybodaeth ac arloesedd i gael twf | 64.9 | 29.3 | 24.5 | 12.1 |
| 2 – Cystadleurwydd a thwf busnesau | 28.4 | 12.8 | 71.1 | 11.3 |
| 3 – Mynd i'r afael â newid hinsawdd | 28.4 | 12.8 | 17.8 | 7.6 |
| 4 – Adfywio i gael twf | 21.4 | 9.7 | 6.9 | 3.3 |
| 5 - Cymorth technegol | 2.4 | 1.3 | 0.9 | 0.4 |
| **Cyfanswm** | **145.5** | **65.9** | **121.2** | **34.9** |

[4] Cyfrifwyd drwy ddefnyddio cyfradd gyfnewid o £1 i €1.1

**Rhaglen Gydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop**

*Miliynau £*

| Blaenoriaeth | Dyraniad | | Ymrwymiad | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm cost y prosiect | Grant yr UE | Cyfanswm cost y prosiect | Grant yr UE |
| 1 – Rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc ar gyfer dysgu a chyflogaeth yn y dyfodol | 172.2 | 112.7 | 114.9 | 62.3 |
| 2 – Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd | 468.0 | 298.0 | 457.8 | 248.2 |
| 3 – Gwella lefelau sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu | 458.5 | 301.7 | 325.5 | 189.6 |
| 4 – Gwella gwasanaethau cyhoeddus – Creu'r Cysylltiadau | 50.7 | 30.0 | - | - |
| 5 - Cymorth technegol | 28.0 | 15.5 | 10.5 | 5.2 |
| **Cyfanswm** | **1177.4** | **757.9** | **908.7** | **505.3** |

**Rhaglen Gystadleurwydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop**

*Miliynau £*

| Blaenoriaeth | Dyraniad | | Ymrwymiad | |
|---|---|---|---|---|
| 1 - Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd | 67.7 | 27.1 | 67.7 | 25.4 |
| 2 - Gwella lefelau sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu | 73.9 | 29.6 | 25.3 | 10.3 |
| 3 - Cymorth technegol | 2.4 | 1.2 | 0.8 | 0.4 |
| **Cyfanswm** | **144** | **57.9** | **93.8** | **36.1** |